

Rhagair

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog Cymru,

Ym mis Awst 2008 gwnaethoch ofyn i mi gynnal adolygiad o daliadau a godir am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth cartrefi. Nod yr adolygiad oedd :

- Ystyried y system gyfredol o godi tâl ar gartrefi am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth; ac asesu effeithiolrwydd a thegwch dulliau cyfredol ac amgen o godi tâl gan gynnwys mater fforddiadwyedd;
- Ystyried pryderon cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol;
- Gwneud argymhellion ar unrhyw gamau y dylid eu cymryd i sicrhau bod gan Gymru a Lloegr system gynaliadwy a theg o godi tâl ar waith. Gallai hyn gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol.

Amgaeaf yn awr fy adroddiad terfynol.

Mae'r casgliadau yn seiliedig ar ymatebion i alwad gychwynnol am dystiolaeth yn 2008 a'm hadroddiad interim ym mis Gorffennaf 2009. Cynhaliwyd gweithdai hefyd ledled y wlad, gan gynnwys dau yn Plymouth. Mae'r adroddiad yn defnyddio ymchwil gyhoeddedig a rhywfaint o waith dadansoddi a wnaed gennym ni.

Yn gyffredinol, rwyf wedi dod i'r casgliad, er bod y gyfundrefn reoleiddio yn y diwydiant dŵr wedi gwasanaethu cwsmeriaid yn dda yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, ein bod bellach yn wynebu heriau newydd sylweddol. Mae angen newidiadau i sicrhau ein bod yn barod i wynebu'r heriau hyn. Gall y system codi tâl chwarae rôl bwysig yn hyn o beth. Mae'n bwysig bod y newidiadau yn cael eu gwneud yn fuan cyn i'r heriau ddod yn llawer mwy sylweddol ac yn ddrutach i'w trin.

Y mater pwysicaf yw'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y gwerth rydym yn ei roi ar ddŵr yn awr a'r gwerth y bydd angen i ni ei roi arno yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf ohonom yn ystyried bod dŵr yn rhad a bod cyflenwad digonol ohono ar gael. Bydd y sefyllfa hon yn graddol newid a bydd dŵr yn dod yn fwyfwy drud a phrin. Mae'r galw am ddŵr yn cynyddu. Mae cyflenwadau dŵr eisoes o dan bwysau ledled de a dwyrain Lloegr. Mae rhagfynegiadau ynghylch newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y bydd yr heriau yn dod yn fwy sylweddol. Bydd hafau yn gynhesach ac yn sychach; mae'n bosibl y bydd llifoedd afonydd yn lleihau'n sylweddol. Ar adegau eraill o'r flwyddyn, bydd yn bwrw glaw yn drymach. Effeithir ar ein system ddraenio gan lifogydd tymhorol difrifol. At hynny, mae pwysau parhaus tuag at i fyny ar gostau wrth i ni adnewyddu ein seilwaith, sy'n aml yn perthyn i oes Fictoria, a bodloni gofynion amgylcheddol anodd. Mae fforddiadwyedd eisoes yn broblem i rai cwsmeriaid a bydd yn dod yn fwy o broblem yn y dyfodol.

Yn erbyn y cefndir hwn, cafwyd dwy neges glir o'm hymgyngoriadau:-

- Mae'n bwysig y dylai'r system codi tâl gymell unigolion i ddefnyddio dŵr yn effeithlon i sicrhau bod gennym gyflenwad dŵr cynaliadwy.
- Mae angen i ddŵr, fel un o hanfodion bywyd, fod yn fforddiadwy hefyd, yn enwedig i'r rhai ar incwm isel.

Mae'r adroddiad yn nodi pryderon sylweddol a chynyddol ynghylch y system gymysg gyfredol o godi tâl (gwerth trethadwy a mesuryddion). Nid yw gwerth trethadwy yn targedu mwyach y rhai y mae angen cymorth arnynt i dalu eu biliau. Mae biliau am gyflenwad heb ei fesur yn cynyddu yn gyflymach na biliau am gyflenwad wedi'i fesur: o 29% dros y bum mlynedd nesaf yn Ne-orllewin Lloegr. Nid yw'r system gyfredol yn cymell unigolion i ddefnyddio dŵr yn effeithlon ychwaith. Mae pobl yn pleidleisio â'u traed drwy ddewis mesuryddion i arbed arian ar eu biliau.

Cadw costau i lawr, tra'n sicrhau y gall cwmnïau wneud elw teg ar eu buddsoddiadau, fydd y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau y gall unigolion fforddio talu eu biliau dŵr. Mae'r adroddiad yn gwneud rhai argymhellion i helpu i gyflawni'r nod hwn. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gwerth llawn dŵr yn cael ei ystyried mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch buddsoddi, i sicrhau ein bod yn rhoi gwerth priodol ar ddŵr.

Daw'r adroddiad i'r casgliad mai codi tâl yn seiliedig ar faint o ddŵr a ddefnyddiwyd (sy'n golygu gosod mesuryddion) yw'r dull tecaf o godi tâl. Gall gymell unigolion i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, mae costau ynghlwm wrth osod mesuryddion. Felly mae'r adroddiad yn edrych ar gostau a manteision mesuryddion. Daw i'r casgliad, wrth werthuso'r manteision, fod angen ystyried y dŵr y gellid ei arbed a'r costau llai sy'n gysylltiedig â dull mwy systematig o fesur cyflenwad dŵr. Mae'r system bresennol, lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis cael mesuryddion, yn ffordd ddrud iawn o osod mesuryddion.

Daw'r adroddiad i'r casgliad bod achos cryf dros osod mesuryddion lle mae dŵr yn brin a lle mae'r manteision, felly, yn drech na'r anfanteision; ar gyfer unigolion sy'n gwneud llawer o ddefnydd dewisol o ddŵr (efallai nad ydynt yn talu am yr hyn a ddefnyddiant ar hyn o bryd); a phan newidir meddiannaeth. Mae'r achos dros osod mesuryddion yn llai cymhellol lle mae cyflenwad digonol o ddŵr. Am fod mesuryddion yn dod yn fwy cyffredin, mae'r broses o drosglwyddo o un system codi tâl i system arall eisoes yn mynd rhagddi. Ni ellir gwneud hyn yn llwyddiannus heb arweiniad. Mae'r adroddiad yn argymhell y dylai Ofwat, gan weithio gydag eraill gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, roi'r arweiniad hwnnw. Mae hefyd yn argymhell y dylid sefydlu gweithgor i sicrhau y manteisir yn llawn ar unrhyw synergeddau â'r rhaglen mesuryddion call yn y sector ynni. Mae'r adroddiad yn awgrymu, os mabwysiedir yr argymhellion hyn, y bydd gan tua 80% o gartrefi yn Lloegr fesuryddion erbyn 2020 (bydd y ganran yn llawer is yng Nghymru am fod gennym fwy o ddŵr ar gael).

Mae'r adroddiad yn nodi bod fforddiadwyedd eisoes yn broblem wirioneddol i rai grwpiau o gwsmeriaid ac mewn ardaloedd lle mae costau yn uchel megis yn Ne-orllewin Lloegr. Felly, mae'n argymhell pecyn cymorth sydd wedi'i

dargeddu'n benodol at gwsmeriaid ar incwm isel. Mae'r pecyn yn cynnwys cymorth i dalu biliau ac yn awgrymu cynlluniau effeithlonrwydd dŵr ochr yn ochr â chynlluniau ynni tebyg. Bydd angen gwneud penderfyniadau ynghylch pwy a ddylai ariannu'r pecyn hwn - y llywodraeth neu gwsmeriaid dŵr. Mae'r adroddiad yn nodi'r materion allweddol. Mae gan Ofwat eisoes ddyletswydd i ystyried cwsmeriaid ar incwm isel ac mae'r adroddiad yn argymhell y dylai'r rheoleiddiwr, gan weithio gyda'r cwmnïau, chwarae rôl fwy rhagweithiol wrth roi cyngor i'r llywodraeth, pan fo angen, ar unrhyw gymorth pellach y gall fod ei angen.

Mae'n amlwg bod drwg-ddyledion yn gosod gormod o faich ar y cwsmeriaid dŵr sy'n talu eu biliau. Y gost i gwsmeriaid sy'n talu yw tua £12 y flwyddyn, cost y mae llawer ohonynt yn ei chael yn anodd ei thalu; mae dyled yn y diwydiant dŵr deirgwaith yn fwy nag yn y sector ynni, er bod biliau tua 66% yn llai na biliau ynni. Mae hyn yn awgrymu bod rhywbeth sylfaenol o'i le. Mae'r adroddiad yn argymhell y dylid newid deddfwriaeth ar frys i ganiatáu i gwmnïau dŵr anfon biliau at gwsmeriaid penodol, gan eu galluogi i fynd ar ôl dyledion drwy'r llysoedd, os oes angen.

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried pwy a ddylai dalu am wahanol elfennau o'r bil cyfredol. Daw i'r casgliad y dylid parhau i godi tâl ar sail ranbarthol i adlewyrchu costau dŵr. Mae hefyd yn dod i'r casgliad ei bod yn briodol i gwsmeriaid dŵr dalu am wella ansawdd dŵr a chael gwared ar garthffosiaeth am eu bod yn cael budd o'r gwelliannau. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio, os bwriedir i gwsmeriaid dŵr dalu am y gwelliannau hyn, ei bod yn hanfodol bwysig yr ymgynghorir â hwy ynghylch y costau ychwanegol cyn i'r llywodraethau gytuno arnynt - neu bydd prisiau dŵr yn dechrau cael eu hystyried yn "dreth lechwraidd" ac fe'i gwrthwynebwr yn gryf, fel sydd wedi digwydd eisoes yn Ne-orllewin Lloegr.

Mae'r adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad bod yr her sy'n gysylltiedig â llifogydd yn y dyfodol gymaint fel y dylai'r system codi tâl gymell cartrefi sy'n gwsmeriaid i leihau'r dŵr wyneb sy'n draenio o'u heiddo. Mae'n argymhell y dylai'r awdurdodau priffyrdd fod yn gyfrifol am systemau draenio priffyrdd am eu bod yn y sefyllfa orau i ddylanwadu ar hyn.

Mae'r adroddiad yn ystyried y materion yn Ne-orllewin Lloegr. Ar gyfartaledd mae biliau 50% yn fwy nag mewn ardaloedd eraill. Mae pobl leol o'r farn bod hyn yn annheg ac mae'n codi materion fforddiadwyedd. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod y prisiau uchel i'w priodoli i gyfuniad o'r angen i osod systemau carthffosiaeth newydd ers 1989 sy'n gofyn am gryn dipyn o fuddsoddiad, lle mae poblogaeth gymharol fach wedi gorfod talu'r costau. Mae'r adroddiad yn nodi rhai rhwymedïau posibl gan gynnwys addasiad cywirol a delir naill ai gan y llywodraeth neu gan gwsmeriaid dŵr eraill; neu becyn o fesurau i helpu cwsmeriaid yn Ne-orllewin Cymru, gan gynnwys y defnydd posibl o dariff tymhorol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu ar yr adolygiad hwn drwy roi tystiolaeth, mynd i weithdai neu ymateb i geisiadau am wybodaeth. Rydym wedi cael mewnbyn ystyriol iawn a werthfawrogwyd yn fawr. Hoffwn hefyd ddiolch yn wresog i'm tîm adolygu am eu gwaith caled parhaol, eu hwylliau da

a'u parodrwydd i barhau i fynd i'r afael â materion dyrys iawn! Ni fu'n hawdd ymdrin â'r rhain ond gobeithio y byddwn wedi cyfrannu at y broses o gynllunio system codi tâl ar gyfer y dyfodol a fydd yn helpu i sicrhau cyflenwadau cynaliadwy o ddŵr i ni i gyd am brisiau y gall pawb eu fforddio.

Anna Walker

Rhagfyr 2009